# Ailenwi Maes Awyr Caerdydd

**Y Pwyllgor Deisebau | 13 Medi 2016**

Petitions Committee | 13 September 2016

## Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

**Rhif y ddeiseb**: P-05-698

**Teitl y ddeiseb**: Ailenwi Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn Maes Awyr Rhyngwladol y Dywysoges Diana

**Testun y ddeiseb:** Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailenwi Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn "Maes Awyr Rhyngwladol y Dywysoges Diana".

Trwy ailenwi Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, gellir cael mwy o gyhoeddusrwydd a chwsmeriaid o Gymru.

### Cefndir

Prynodd Llywodraeth Cymru'r maes awyr ar 27 Mawrth 2013 am £52 miliwn, i'w weithredu ar sail fasnachol ar hyd braich oddi wrth Weinidogion.

Mae tri o feysydd awyr y DU wedi eu henwi ar ôl unigolion:

- Yn 2001, newidiwyd enw Maes Awyr Lerpwl i Faes Awyr Lerpwl John Lennon;
- Yn 2006, newidiwyd enw Maes Awyr Dinas Belfast i Faes Awyr Dinas Belfast George Best;
- Mae Maes Awyr Doncaster Sheffield hefyd yn defnyddio'r enw Maes Awyr Robin Hood, neu Faes Awyr Robin Hood Doncaster Sheffield.

Mae'r syniad o ailenwi Maes Awyr Caerdydd yn cael sylw yn y cyfryngau o bryd i'w gilydd. Yn 2014, cafwyd awgrym gan Geraint Davies AS y gellid newid yr enw i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Dylan Thomas.

Cafodd brand Maes Awyr Caerdydd ei ddiwygio yn 2009, pan newidiwyd yr enw o Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd i 'Faes Awyr Caerdydd' a 'Cardiff Airport', ac fe gyflwynwyd brand gweledol a logo newydd ar yr un pryd.

### Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi awgrymu bod newid enw Maes Awyr Caerdydd yn un o'i blaenoriaethau. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai newid enw'r maes awyr yn fater gweithredol i Faes Awyr Caerdydd.

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn 2014, bu Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad yn trafod deiseb i ailenwi Maes Awyr Caerdydd yn Faes Awyr Rhyngwladol Robert Owen Cymru, er cof am yr arloeswr o Gymru a chwaraeodd ran flaenllaw yn y Mudiad Cydweithredol. Dywedodd y Gweinidog cyfrifol blaenorol nad oedd unrhyw gynlluniau i ailenwi'r maes awyr, felly caewyd y ddeiseb.

Cyflwynwyd dwy ddeiseb arall yn galw am ailenwi Maes Awyr Caerdydd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, ond ystyriwyd bod y ddwy yn annerbyniadwy. Roedd un o'r deisebau hynny yn galw am ailenwi'r maes awyr yn Awyrle Dewi Sant Airport. Roedd yn annerbyniadwy am fod y Pwyllgor wedi ystyried deiseb debyg iawn yn ystod y 12 mis blaenorol (y ddeiseb y cyfeirir ati uchod). Barnwyd bod y ddeiseb arall yn annerbyniadwy am ei bod yn defnyddio iaith y gellid ei hystyried yn dramgwyddus.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.